



Cabinet Office

Cynllun Gweithredu Anabledd



Cynllun Gweithredu Anabledd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Chwefror 2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn

Disability Action Plan team, Disability Unit,
Cabinet Office
1 Horse Guards Road, 4th Floor, Zone 6
London
SW14 2HQ

ISBN 978-1-5286-4675-8

E03061238 02/24

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 40% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	3
Crynodeb gweithredol	6
Cyflwyniad	9
Dalgyrch daearyddol	9
Manylion cyswllt	10
Cwynion neu sylwadau	10
Y prif themâu yn adborth pobl	11
Themâu ar draws yr ymgynghoriad	11
Barn ar y Cynllun Gweithredu Anabledd cyffredinol	13
Meysydd gweithredu	15
Cynorthwyo pobl anabl sydd eisiau cael eu hethol i swydd gyhoeddus	15
Cynnwys anghenion pobl anabl mewn cynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd	17
Cynnwys anghenion pobl anabl mewn polisiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd	18
Gwella gwybodaeth a chanlyniadau i deuluoedd lle mae rhywun yn anabl	21
Gwneud meysydd chwarae yn fwy hygyrch	24
Helpu busnesau i ddeall anghenion pobl anabl a darparu gweliannau ar eu cyfer	25
Archwilio a allai'r DU gynnal Gemau Olympaidd Arbennig Haf y Byd	27
Cynorthwyo pobl sydd â chŵn tywys a chymorth	28
Helpu'r llywodraeth i fesur pa mor effeithiol yw ei pholisiau a'i gwasanaethau i bobl anabl	30
Materion ymchwil sy'n wynebu pobl anabl yn y dyfodol	31
Newydd: Gwneud cyhoeddiadau a chyfathrebiadau'r llywodraeth yn fwy hygyrch	33
Newydd: Gwella dealltwriaeth o gostau byw i bobl anabl	34
Newydd: Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r UNCRPD ar draws y llywodraeth	35
Newydd: Monitro ac adrodd ar gynnydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Anabledd	36
Dilewyd: Codi proffil technoleg gynorthwyol	36
Atodiad A - Rhestrau o gamau gweithredu	38

Rhagair gan y Gweinidog



Mae'r llywodraeth hon yn benderfynol o drawsnewid bywydau a phrofiadau bob dydd pobl anabl er gwell.

Mae dros 1 o bob 5 o bobl yn y DU yn anabl. Rydym am fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag elwa'n llawn ar ein cymdeithas ac ymgysylltu â hi. Golyga hyn wneud y wlad hon y lle mwyaf hygyrch yn y byd i bobl anabl fyw, gweithio a ffynnu ynddo.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithio'n agos ac ar y cyd â phobl anabl a rhanddeiliaid anabledd.

Os yw'n clywed gan Fforwm Sefydliadau Pobl Anabl Lloegr, y Consortiwm Elusennau Anabledd a'r Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol am bryderon a blaenoriaethau eu haelodau, ymweld â mentrau o'r radd flaenaf gyda'r Llysgenhadon Anabledd a Mynediad, gweithio gyda Bwrdd Cynghori Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr BSL, neu siarad ag unigolion neu grwpiau bach mewn cyfarfodydd, ymweliadau a digwyddiadau, rydym wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i ddysgu'n uniongyrchol gan bobl anabl. Mae pobl anabl yn gwybod yn well nag unrhyw un arall beth sydd bwysicaf iddyn nhw.

Mae'r dull hwn wrth wraidd popeth a wnawn. Mae wedi llunio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn, ac mae'n ganolog i'r ffordd y byddwn yn gweithredu – drwy gydweithio â phobl anabl, cynyddu eu lleisiau, a chymryd camau i ymgorffori dulliau cynhwysol o ran anabledd ar y materion y mae pobl anabl yn poeni amdanynt fwyaf.

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau, cyhoeddodd y llywodraeth ein bod yn mynd i ddatblygu Cynllun Gweithredu Anabledd newydd, gan nodi'r camau uniongyrchol y byddai'r llywodraeth yn eu cymryd yn 2023 a 2024 i wella bywydau pobl anabl.

Ac roeddem am roi cyfle i bawb – yn enwedig pobl anabl, sefydliadau pobl anabl a phartion eraill â diddordeb – ddweud eu dweud. Dyna pam y gwnaethom gyhoeddi'r cynllun drafft ym mis Gorffennaf 2023 ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hygyrch.

Yn y cynllun drafft, gwnaethom rannu ein cynigion ar gyfer 12 maes lle'r oeddem yn teimlo y gallem gymryd camau ar unwaith i wella bywydau bob dydd pobl anabl, neu osod sylfeini newid tymor hwy.

Fel y dywedwyd ar y pryd, ni fwriadwyd i'r ymgynghoriad hwn fod yn ddiwedd taith. Yn hytrach, cam cyntaf oedd hwn - ac mae'n gyfle i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r cyfeiriad cywir.

4 Cynllun Gweithredu Anabledd

Yn ystod yr ymgynghoriad, rhannodd dros 1,300 o bobl eu meddyliau â ni. Rwy'n hynod ddiolchgar i bob un person a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad, naill ai drwy ateb y cwestiynau ar-lein neu anfon eu meddyliau dros e-bost, ffôn neu drwy'r post. Rydym yn cyhoeddi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion hynny heddiw ochr yn ochr â'r cynllun hwn.

Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a roddodd o'u hamser i fynychu un neu fwy o'r digwyddiadau niferus a gynhaliwyd gennym trwy gydol y cyfnod ymgynghori, ac i rannu eu mewnwelediadau amhrisiadwy.

Mae pob ymateb – pob sylw, meddwl ac awgrym - wedi ein helpu i lunio a chryfhau'r Cynllun Gweithredu Anabledd terfynol fel y gall gyflawni'r effaith fwyaf posibl.

Ar ôl cymryd yr amser i wrando, i drafod ac ymgysylltu, rydym bellach yn symud yn syth i weithredu. Rwy'n benderfynol y byddwn yn cyflawni pob un o'r cynigion hyn.

Er mwyn olrhain ein cynnydd, byddwn yn cyhoeddi 2 ddiweddariad i'r Senedd ac ar GOV.UK ar ôl 6 mis a 12 mis.

Rydym yn gwybod bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau ar draws sawl rhan o'u bywydau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithredu ar y cyd ar draws y llywodraeth i wella bywydau pobl anabl a sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

O gymorth â chostau byw drwy [Help i Aelwydydd](#), i gynlluniau ar gyfer addysg drwy'r cynllun [AAAA a darpariaeth amgen](#), o ddiwygiadau i gyflogaeth a lles drwy'r [Papwr Gwyn Trawsnewid Cymorth: Iechyd ac Anabledd](#) a'r [Cynllun Yn Ôl i'r Gwaith](#), i strategaethau i wella iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r [Papwr Gwyn Pobl wrth Galon Gofal](#) a datblygu'r [TGAU Iaith Arwyddion Prydain \(BSL\) newydd](#), mae gwaith sylweddol eisoes yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth mewn meysydd y mae pobl anabl wedi dweud wrthym eu bod yn flaenoriaeth.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r llywodraeth hon wedi cyflawni gwelliannau gwirioneddol i bobl anabl. Rydym wedi cefnogi hynt 2 ddarn nodedig o ddeddfwriaeth, Deddf Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a'r Ddeddf Syndrom Down, wedi darparu £1 biliwn ychwanegol yn 2022 a 2023 ar gyfer addysg plant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth a lansio canolfan gynghori ar-lein ar hawliau cyflogaeth i bobl anabl.

Rydym wedi gwella'r rhaglen Mynediad at Waith, wedi cyflwyno ap Cymorth i Deithwyr newydd sy'n cynorthwyo miloedd o ddefnyddwyr rheilffyrdd ac wedi cryfhau'r Cod Dioddefwyr â gwell hawliau i bobl anabl. Gwnaethom ddiweddarau'r Canllaw Dylunio Cenedlaethol a chyhoeddi'r Cod Dylunio Model Cenedlaethol i nodi nodweddion lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac i helpu awdurdodau cynllunio lleol i baratoi eu codau dylunio lleol eu hunain, a gwneud Llwybr Arfordir Brenin Siarl III Lloegr mor hawdd â phosibl i bobl anabl eu defnyddio – mae dros 2,260 milltir o'r llwybr bellach wedi'i gymeradwyo, 1040 milltir ar agor.

Ac rydym wedi gweld 1.3 miliwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith nawr nag yn 2017 – gan gyflawni ymrwymiad gan y llywodraeth 5 mlynedd yn gynnar.

Bydd y Cynllun Gweithredu ar Anabledd hwn yn ategu'r gwaith hwn, gan gyflawni gwelliannau gwirioneddol i fywydau bob dydd pobl anabl.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda fy nghydweithwyr ar draws y llywodraeth, yr Hyrwyddwyr Anabledd Gweinidogol, i yrru cynnydd ar y meysydd gweithredu uniongyrchol yn y cynllun yn ogystal ag ar yr ymrwymladau cyflenwol yn y Strategaeth Anabledd Genedlaethol, sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor, a rhaglenni diwygio hirdymor eraill ar draws y llywodraeth.

Does dim amser i'w wastraffu. Fel y mae'r cynllun hwn yn nodi, byddwn yn cymryd camau ar unwaith nawr, ac yn ystod y misoedd nesaf, i gyflawni gwelliannau gwirioneddol a diriaethol i bobl anabl.

Gyda'n gilydd, gallwn ddatgloi cyfleoedd fel y gall rhagor o bobl anabl gyrraedd eu potensial, a newid bywydau pobl anabl er gwell.

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Mims'.

Mims Davies AS

Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith

Crynodeb gweithredol

Yn y DU, mae dros 1 o bob 5 o bobl yn anabl. Mae'r llywodraeth hon am wneud y wlad hon y lle mwyaf hygyrch yn y byd i bobl anabl fyw, gweithio a ffynnu ynddo, gan fynd i'r afael â a chael gwared ar y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu potensial llawn.

Rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu Anabledd newydd hwn i ategu

- y [Strategaeth Anabledd Genedlaethol](#) sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor i drawsnewid bywydau pobl anabl er gwell
- rhaglenni diwygio sylweddol eraill Llywodraeth y DU a gwaith penodol i wella mynediad cyfartal i gyfleoedd yn barhaus, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCPRD)

Mae'n nodi'r camau uniongyrchol y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i wella bywydau bob dydd pobl anabl. Mae hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer newid tymor hwy.

Trwy gydol yr ymgynghoriad 12 wythnos cawsom dros 1,300 o ymatebion, a buom yn siarad â llawer mwy o bobl ledled y DU mewn digwyddiadau ymgynghori. Mae'r camau olaf yn y cynllun hwn wedi cael eu llunio gan feddyliau, profiadau a chanfyddiadau pawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad neu a ddaeth i ddigwyddiad.

Cynigion yn yr ymgynghoriad

Y [Cynllun Gweithredu ar gyfer Anabledd 2023 i 2024: dogfen ymgynghori](#): wedi'i ddisgrifio

- gwaith sydd eisoes ar y gweill neu a gwblhawyd ar draws y llywodraeth dros y 12 mis diwethaf
- gwaith a gynlluniwyd ym mhob adran o'r llywodraeth yn ystod y 18 mis nesaf a thu hwnt

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar 12 maes arfaethedig ar gyfer gweithredu a arweiniwyd neu a gydlynir gan yr Uned Anabledd (UA), rhan o Swyddfa'r Cabinet. Sefydlwyd yr UA i weithio ar draws y llywodraeth i chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn y DU.

Cafodd cynigion yn y ddogfen ymgynghori eu grwpio i 4 categori bras:

- gwella cynhwysiant anabledd ym mholisiau'r llywodraeth bresennol
- camau gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol pobl anabl
- gwella cydweithio trawslywodraethol
- cryfhau'r sylfaen dystiolaeth

Yn olaf, gofynnodd yr ymgynghoriad 2 gwestiwn arall. Roedd y cyntaf yn ymwneud â barn pobl ar y cynllun cyfan. Gofynnodd yr ail beth arall y gallai'r llywodraeth ei wneud i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl anabl.

Y prif themâu yn adborth pobl

Roedd y 7 thema ganlynol yn rhedeg trwy ymatebion llawer o bobl i'r ymgynghoriad. Rydym wedi diwygio ein cynigion yn unol â'r themâu hyn lle bynnag y bo modd:

- dylai polisïau gael eu llywio gan brofiadau pobl anabl
- mae angen camau gweithredu clir, mesuradwy, gydag atebolrwydd clir
- ystyried amgylchiadau ariannol pobl anabl a chostau byw
- digon o arian ar gyfer camau gweithredu penodol
- sicrhau cynnwys pob unigolyn anabl
- cyfathrebiadau gwell a hygyrch am wasanaethau ac adnoddau'r llywodraeth
- cyfle cyfartal i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl

Meysydd gweithredu

Mae'r bennod hon yn nodi 32 o gamau gweithredu, ar draws 14 maes gwahanol. Bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r rhain gyda phobl anabl, eu sefydliadau, ac adrannau eraill y llywodraeth a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi ein helpu i lunio'r camau gweithredu hyn. Rydym wedi diwygio neu ddileu rhai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad, ac wedi ychwanegu sawl cynnig newydd.

O ganlyniad, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda phobl anabl, eu sefydliadau a phartneriaid eraill yn y flwyddyn i ddod er mwyn:

1. Cynorthwyo pobl anabl sydd am gael eu hethol i swydd gyhoeddus
2. Cynnwys anghenion pobl anabl wrth gynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd
3. Cynnwys anghenion pobl anabl mewn polisïau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
4. Gwella gwybodaeth a chanlyniadau i deuluoedd lle mae rhywun yn anabl
5. Gwneud meysydd chwarae yn fwy hygyrch
6. Helpu busnesau i ddeall anghenion pobl anabl a darparu gwelliannau ar eu cyfer
7. Archwilio a allai'r DU gynnal Gemau Olympaidd Arbennig Haf y Byd
8. Cynorthwyo pobl sydd â chŵn tywys a chymorth
9. Helpu'r llywodraeth i fesur pa mor effeithiol yw ei pholisïau a'i gwasanaethau i bobl anabl
10. Materion ymchwil sy'n wynebu pobl anabl yn y dyfodol
11. Gwneud cyhoeddiadau a gwaith cyfathrebu'r llywodraeth yn fwy hygyrch
12. Gwella dealltwriaeth o gostau byw i bobl anabl
13. Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r UNCRPD ar draws y llywodraeth
14. Monitro ac adrodd ar gynnydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Anabledd

8 Cynllun Gweithredu Anabledd

Mae'r camau gweithredu diwethaf yn nodi cynlluniau'r llywodraeth i gyhoeddi diweddariadau cynnydd ar ôl 6 mis a 12 mis. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn y Senedd yn ddatganiadau gweinidogol ysgrifenedig, ac ar GOV.UK. Bydd yr UA hefyd yn rhannu'r diweddariadau â'u rhwydweithiau rhanddeiliaid strategol.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau uniongyrchol y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i wella bywydau pobl anabl. Mae hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer newid tymor hwy. Mae'r cynllun hwn yn rhan o ymrwymiad y llywodraeth i greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb, lle gall pawb gymryd rhan a chael eu cynnwys yn llawn.

Mae llawer o bobl yn y DU yn anabl (1 o bob 5). Mae pobl anabl yn rhannu'r un uchelgais i gymryd rhan mewn cymdeithas â phobl nad ydynt yn anabl, ond yn aml yn profi rhagor o rwystrau.

Mae'r [Strategaeth Anabledd Genedlaethol](#) yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar draws Llywodraeth y DU i leihau'r rhwystrau hyn a thrawsnewid bywydau pobl anabl er gwell. Fodd bynnag, rydym am fynd yn bellach fyth. Rydym, felly, wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu Anabledd newydd hwn.

Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Anabledd Genedlaethol a rhaglenni diwygio sylweddol eraill ar draws y llywodraeth. Gyda'i gilydd, maen nhw'n dangos ehangder a dyfnder ymrwymiad y llywodraeth i wella bywydau pobl anabl, nawr ac am flynyddoedd i ddod. Yn y modd hwn, mae Llywodraeth y DU hefyd yn dangos ei hymrwymiad i weithredu CCUHP trwy ei deddfwriaeth, ei pholisïau a'i gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i bobl anabl, gwnaethom gynnal [ymgyngoriad](#) rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2023. Cafodd yr ymgynghoriad dros 1,300 o ymatebion.

Mae'r canfyddiadau, y dystiolaeth a'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi llywio datblygiad y cynllun terfynol.

Bydd y ddogfen hon yn cynnwys:

- themâu o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r cynigion a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad
- y camau gweithredu terfynol a gymerir yn y Cynllun Gweithredu ar Sail Anabledd

Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag [adroddiad annibynnol sy'n crynhoi canfyddiadau o'r ymgynghoriad](#).

Dalgyrch daearyddol

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i lunio gan Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod y gallai penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU effeithio ar fywydau pobl anabl ledled y DU, lle nad yw polisi wedi'i ddatganoli.

Mae llawer o'r meysydd polisi sy'n berthnasol i'r cynllun hwn wedi'u datganoli. Mae datganoli yn cydnabod gwerth polisïau o'r fath yn cael eu teilwra i anghenion a dymuniadau penodol y bobl ym mhob rhan o'r DU. Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r amrywiaeth o ddulliau a ddilynir ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar faterion sydd wedi'u datganoli.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn parchu cytundebau datganoli. Bydd camau a nodir yn parchu cytundebau datganoli yn cael eu gweithredu yn unig yn y gwledydd lle mae cytundebau datganoli yn datgan bod Llywodraeth y DU yn cadw perchnogaeth o'r mater.

Manylion cyswllt

Mae'r adroddiad ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/disability-action-plan>.

Gellir cael rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori yn y cyfeiriad e-bost neu bost isod:

E-bost: disabilityactionplan@cabinetoffice.gov.uk

Cyfeiriad post:

Disability Action Plan team, Disability Unit, Cabinet Office
4th Floor, Home Zone 6
1 Horse Guards Road
Llundain/London, SW1A 2HQ

Ffôn: 08081756420

Me fformatau eraill o'r cynllun ar gael yn

<https://www.gov.uk/government/publications/disability-action-plan>, and include:

- fideo sgrin lawn BSL
- Cyfieithiad Cymraeg
- Hawdd ei ddeall
- print mawr
- PDF a HTML y gellir eu gweld dros y we
- braille
- copi caled
- ffeil sain

Gallwch ofyn am Braille neu gopiau caled drwy e-bostio:

disabilityactionplan@cabinetoffice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau am y broses ymgynghori cysylltwch â Swyddfa'r Cabinet yn y cyfeiriad uchod.

Y prif themâu yn adborth pobl

Disgrifiodd [Cynllun Gweithredu ar gyfer Anabledd 2023 i 2024: dogfen ymgynghori](#) (cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2023):

- waith a oedd eisoes ar y gweill neu a gwblhawyd ar draws y llywodraeth dros y 12 mis diwethaf
- gwaith a gynlluniwyd ym mhob un o adrannau Llywodraeth y DU yn ystod y 18 mis nesaf a thu hwnt
- 12 maes gweithredu arfaethedig mewn 4 categori eang:
 - gwella cynhwysiant anabledd ym mholisiâu'r llywodraeth bresennol
 - camau gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol pobl anabl
 - gwella cydweithio trawslywodraethol
 - cryfhau'r sylfaen dystiolaeth

Yn olaf, gofynnodd yr ymgynghoriad am:

- farn pobl am y cynlluniau cyfan
- awgrymiadau ar gyfer camau eraill y dylai'r llywodraeth eu hystyried i wella bywydau pobl anabl

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Gorffennaf a 6 Hydref 2023 ac roedd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Derbyniwyd ymatebion drwy e-bost, post, ffôn ac arolwg ar-lein. Casglwyd canfyddiadau a thystiolaeth hefyd trwy gyfres o ddiwyddiadau a chyfarfodydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r 7 prif thema yn yr ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori. Mae'n tynnu sylw at y prif feysydd polisi y nododd pobl fod angen rhoi sylw iddynt gan Lywodraeth y DU. Mae'r crynodeb hwn yn tynnu ar [adroddiad canfyddiadau annibynnol y Cynllun Gweithredu ar Anabledd](#), yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd mewn diwyddiadau a chyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Themâu ar draws yr ymgynghoriad

Canfuom 7 thema a oedd yn rhedeg trwy ymatebion pobl i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn arbennig o weladwy mewn ymatebion i'r cwestiwn yn gofyn am farn ar y cynllun gweithredu arfaethedig yn ei gyfanrwydd. Rydym wedi diwygio ein cynigion yn unol â'r themâu hyn lle bynnag y bo modd. Mae hyn wedi arwain at bedwar maes gweithredu newydd. Mae'r themâu hefyd wedi ein helpu i lunio sut rydym yn bwriadu cyflawni'r cynigion a wnaethom yn yr ymgynghoriad.

1. Dylai polisiâu gael eu llywio gan brofiadau pobl anabl

12 Cynllun Gweithredu Anabledd

Amlygodd yr ymatebwyr yr angen i gynnwys pobl anabl wrth ddatblygu a gweithredu polisiau. Dywedon nhw fod rhagor o ystyriaeth o brofiadau pobl anabl yn hanfodol wrth gynnal ymchwil, datblygu polisi a darparu gwasanaeth.

O'r herwydd, rydym wedi diwygio rhai camau gweithredu i nodi'n gliriach sut y byddwn yn sicrhau bod lleisiau pobl anabl a phrofiadau pobl anabl yn cael eu cynyddu yn y Cynllun Gweithredu ar Anabledd.

2. Camau gweithredu clir, mesuradwy, gydag atebolrwydd clir

Dyweddodd pobl yn gyson pa mor bwysig oedd hi fod y cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu clir a mesuradwy. Dywedon nhw y dylai atebolrwydd ac amserlenni fod yn glir, a dulliau wedi'u canoli a'u cydgysylltu.

O ganlyniad, rydym wedi gwneud gweithredoedd yn fwy penodol a choncrit lle bo hynny'n bosibl, gan ganiatáu atebolrwydd helaethach. Rydym hefyd wedi cyflwyno camau newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar ôl 6 a 12 mis.

3. Ystyried amgylchiadau ariannol pobl anabl a chostau byw

Cododd yr ymatebwyr fater amgylchiadau ariannol pobl anabl, yn enwedig yng nghydestun costau byw. Fe wnaethant dynnu sylw at feysydd lle roedd costau cynyddol yn effeithio'n arbennig ar bobl anabl. Gofynnwn nhw hefyd am dulliau symlach o gael cymorth ariannol.

Mae'r llywodraeth eisoes yn gwneud gwaith ar hyn y tu allan i'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd. Ond rydym hefyd wedi diwygio'r cynllun lle bo hynny'n bosibl i ystyried y canfyddiadau hyn. Er enghraifft, drwy:

- Ddod â gwybodaeth at ei gilydd am amrywiaeth o wasanaethau i'w defnyddio gan deuluoedd ag aelodau anabl
- gan ychwanegu maes gweithredu newydd ar effaith costau byw ar bobl anabl

4. Digion o arian ar gyfer camau gweithredu penodol

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aml yn crybwyll bod angen cyllid digonol ar bolisiau yn y cynllun gweithredu. Yn gysylltiedig, dywedodd ymatebwyr y gallai cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau ddatrys llawer o faterion sy'n wynebu pobl anabl.

Mae'r holl gamau gweithredu o fewn y cynllun hwn wedi'u cynnwys yn dilyn asesiadau o ba mor ymarferol y maent i'w cwblhau.

5. Sicrhau bod yr holl bobl anabl yn cael eu cynnwys

Dyweddodd llawer o'r ymatebwyr fod angen llunio polisiau i gydnabod ac ymateb i brofiadau ac anghenion amrywiol pobl anabl. Roedd angen penodol i ystyried amrediad llawn o fathau o nam, gan gynnwys anabledau anweladwy neu anabledau dysgu.

Felly, mae camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn ystyried amrediad llawn o namau. Bydd cynnwys ac ystyried anghenion amrediad eang o bobl anabl yn rhagweithiol, ag amrediad eang o namau, yn cefnogi dulliau mwy cynhwysol.

6. Cyfathrebu'n well mewn modd hygyrch am wasanaethau ac adnoddau'r llywodraeth

Amlygodd yr ymatebwyr yn gyson yr angen am wybodaeth a chyfathrebu gwell a hygyrch gan y llywodraeth. Roedd tystiolaeth glir hefyd nad oedd llawer o bobl yn ymwybodol o waith sydd eisoes ar y gweill. Dangosodd ymatebion eraill yr angen i ddarparu gwybodaeth mewn ffyrdd y mae amrediad eang o bobl anabl yn eu canfod yn hygyrch.

O ganlyniad, rydym wedi cynnwys gweithred newydd ar gyfathrebiadau ac adnoddau hygyrch, cynhwysol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei arwain o'r brig, gyda Rhif 10 yn gwneud ymrwymadau newydd i gynyddu'r defnydd o laith Arwyddion Prydain (BSL) ymhellach. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ehangach gyda Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth a'n rhwydweithiau ar draws y llywodraeth i:

- gynyddu'r defnydd o fformatau amgen lle mae'n fwyaf priodol
- gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch
- cynyddu ac adrodd ar ddefnyddio BSL yng nghyfathrebiadau llywodraeth ganolog

7. Cyfle cyfartal i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl

Cefnogodd ymatebwyr fesurau a fyddai'n cynyddu cydraddoldeb i bobl anabl ar draws pob rhan o fywyd. Canolbwyntiodd llawer ar yr angen am gynhwysiant a hygyrchedd i gael eu 'cynllunio i mewn' o'r cychwyn. Amlygodd rhai feysydd posibl hefyd i gefnogi hawliau pobl anabl yn well trwy newid neu orfodi deddfwriaeth.

Ym mhob maes gweithredu, rydym wedi ystyried sut y gallwn ni:

- ddod â phrofiad pobl anabl i galon y gwaith o lunio polisiau a gweithredu
- ymgorffori dyluniad cynhwysol

Lle mae gwaith eisoes ar y gweill, rydym yn gweithio gyda'r timau perthnasol i ddod â phobl anabl i mewn i'r sgwrs ar adegau strategol ar gyfer yr effaith fwyaf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn arwain at welliannau gwirioneddol mewn cydraddoldeb i bobl anabl.

I gael esboniad llawnach o'r themâu hyn, canfyddwch y [dadansoddiad annibynnol o ymgynghoriad y Cynllun Gweithredu Anabledd](#), a gyhoeddwyd ar GOV.UK.

Barn ar y Cynllun Gweithredu Anabledd cyffredinol

Roedd y ddau gwestiwn olaf yn yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl:

- am eu barn am y cynllun arfaethedig yn ei gyfanrwydd
- pa gamau eraill y credent y dylai Llywodraeth y DU eu hystyried

Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr y dylid bwrw ymlaen â'r camau a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Rhoddodd llawer o bobl ganfyddiadau hanfodol sydd wedi bwydo i mewn i'r themâu a nodwyd uchod ac a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynigion terfynol ymhellach, ac i awgrymu sawl maes gweithredu newydd.

Beirniadodd llawer o'r ymatebwyr ffocws tymor byr y cynllun, gan dynnu sylw at yr angen am weithredu tymor hwy.

14 Cynllun Gweithredu Anabledd

Fodd bynnag, dim ond un ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithredu i wella bywydau pobl anabl yw'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd. Nod y cynllun gweithredu yw nodi camau gweithredu ar unwaith y gellir eu cyflawni cyn diwedd y Senedd hon, neu a all wneud cynnydd sylweddol o fewn y cyfnod hwnnw tuag at nod tymor hwy. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cyd-fynd ac yn ategu:

- y [Strategaeth Anabledd Genedlaethol](#)
- diwygiadau ehangach ar draws y llywodraeth (fel y nodir ym Mhenodau 2 a 3 o [ddogfen ymgynghori y Cynllun Gweithredu Anabledd](#))

Mae llawer o'r meysydd a amlygir gan ymatebwyr lle mae angen gweithredu tymor hwy eisoes yn cael sylw neu'n cael eu hystyried naill ai drwy waith sy'n cael ei wneud mewn adrannau eraill y llywodraeth neu drwy [weithredu'r Strategaeth Anabledd Genedlaethol](#). Felly, mae ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r meysydd hyn wedi'u rhannu ag adrannau perthnasol y llywodraeth fel y gellir ystyried y canfyddiadau hynny wrth i'r rhaglenni diwygio tymor hwy hynny gael eu datblygu.

Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: hygyrchedd mewn trafnidiaeth a'r amgylchedd adeiledig, cymorth ariannol, cyflogaeth a chymorth yn y gweithle, iechyd a gofal cymdeithasol, cymorth anffurfiol, addysg, a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd neu hygyrchedd.

Er enghraifft, o fewn y maes cyflogaeth, amlygodd nifer o ymatebwyr a mynychwyr digwyddiadau ymgynghori y Siarter Cyflogaeth Anabledd. Mae sawl ymrwymiad yn y Strategaeth Anabledd Genedlaethol yn ymwneud yn agos â'r siarter, gan gynnwys ymrwymiad yr UA i gyhoeddi canfyddiadau ymgynghoriad a'r camau nesaf ar [Adrodd ar y Gweithlu Anabledd](#). Felly, nid yw gweithredu yn y maes hwn wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithredu hwn, ond mae'n cael ei ddatblygu drwy waith parhaus arall. Am drosolwg llawnach o waith Llywodraeth y DU i gefnogi pobl anabl yn well, gweler penodau 2 a 3 o [ddogfen ymgynghori'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd](#) a'r [Strategaeth Anabledd Genedlaethol](#).

Meysydd gweithredu

Mae'r bennod hon yn nodi'r camau y bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â nhw gyda phobl anabl, eu sefydliadau, ac adrannau eraill y llywodraeth a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r camau hyn yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ymatebion ysgrifenedig (gweler [adroddiad canfyddiadau annibynnol y Cynllun Gweithredu Anabledd](#)) a nifer o ddigwyddiadau a gweithgarwch ymgysylltu. Rydym wedi diwygio neu ddileu rhai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad, ac wedi ychwanegu sawl cynnig newydd.

Mae'r UA wedi ymrwymo i weithio gyda phobl anabl, eu sefydliadau a phartneriaid eraill yn y flwyddyn i ddod.

Cynorthwyo pobl anabl sydd eisiau cael eu hethol i swydd gyhoeddus

Pobl anabl yw 22% o'r boblogaeth ond maent heb gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus. Mae'n bwysig bod pobl mewn rolau etholedig yn gynrychioliadol o'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hefyd yn bwysig bod pobl anabl yn eu gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y lefelau uchaf o fywyd cyhoeddus. Dylid cynorthwyo pobl anabl i gael mynediad i swydd gyhoeddus ac aros ynddi. Amlygwyd yr angen am atebion hirdymor mewn ymchwil a chan lawer o randdeiliaid, gan gynnwys [Grŵp Gweithredu Canmlwyddiant Menywod Anabl mewn Gwleidyddiaeth](#). Ateggodd canfyddiadau ein hymgyngoriad yr angen hwn.

Mae'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd yn rhwystr sylweddol i rai ymgeiswyr ac ymgeiswyr posibl am swydd etholedig. Mae gan bleidiau gwleidyddol ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Darparodd y llywodraeth rywfaint o gymorth ariannol yn y gorffennol, megis y [Gronfa Mynediad at Swyddi Etholedig](#), a oedd yn rhedeg rhwng 2012 a 2015. Er bod y cyllid hwn yn rhoi cymorth gwerthfawr i rai ymgeiswyr anabl, mae angen atebion mwy effeithiol a thymor hir.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd yr UA adolygu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer addasiadau rhesymol i ymgeiswyr anabl. Nod hyn fyddai wedi bod adnabod atebion tymor hir. Cynigiodd yr UA hefyd sefydlu tudalen we GOV.UK i gyfeirio canllawiau a hyfforddiant.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Roedd 92% o'r ymatebion ysgrifenedig yn cytuno y dylai'r llywodraeth gynorthwyo pobl anabl yn well i gael mynediad i swydd etholedig. Mewn digwyddiadau ymgynghori, dywedodd arbenigwyr anabl bod angen cymorth ariannol canolog. Awgrymwyd bod angen yr arian hwn cyn gynted â phosibl. Gwnaed awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gellid cynllunio cronfa newydd.

Mae pwysigrwydd cynyddu cynrychiolaeth pobl anabl mewn swydd etholedig yn amlwg. Mae'r rhwystrau ariannol a hygyrchedd hefyd yn amlwg. Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym wedi clywed nad yw'r dull presennol yn darparu'r cymorth ariannol sydd ei angen ar rai ymgeiswyr anabl. Rydym hefyd wedi clywed gan bobl sydd wedi sefyll neu wedi cael eu hethol i'r swydd nad aeth ein cynnig yn bell nac yn ddigon cyflym.

16 Cynllun Gweithredu Anabledd

Roedd yr ymatebion i'r cynnig i greu hyb ar-lein yn ffafriol, at ei gilydd. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebwyr yn credu bod hyn yn flaenoriaeth. Amlygodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr angen i unrhyw ganolfan newydd fod yn hygyrch. Roedd hyn yn cynnwys darparu opsiynau nad oeddent yn rhai digidol i bobl sydd â llythrennedd digidol isel neu ddim mynediad i'r rhyngwrdd. Amlygodd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yr angen i sicrhau bod gweithleoedd ar gyfer y rhai sy'n cael eu hethol i swydd gyhoeddus yn hygyrch, a bod pobl anabl mewn swydd etholedig yn cael y cymorth a'r hyblygrwydd sydd eu hangen arnynt ar ôl iddynt gael eu hethol.

Mewn digwyddiadau ymgynghori yn benodol, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y dylai camau i wneud gweithleoedd, adeiladau a phrosesau yn fwy hygyrch gael blaenoriaeth, ochr yn ochr â gwaith i sefydlu cronfa.

Nid yw gwella cynrychiolaeth pobl anabl mewn swydd etholedig yn ymwneud â chynorthwyo pobl anabl i gael eu hethol yn unig. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynorthwyo'n briodol i aros yn y swydd. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai a oedd eisoes yn anabl pan gawsant eu hethol, ac i'r rhai a ddaeth yn anabl wedyn.

Mae Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2023-27 Tŷ'r Cyffredin a'r Gwasanaeth Digidol Seneddol yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwelliannau dros y pedair blynedd nesaf. 1 o'i 3 maes ffocws allweddol yw 'Gwella Mynediad'. Mae'r maes hwn yn cynnwys 3 cham:

- gwella hygyrchedd corfforol
- cryfhau'r ffocws ar hygyrchedd digidol
- cryfhau hyder a chymhwysedd anabledd wrth ddarparu gwasanaethau i gydweithwyr a chwsmeriaid

Mae gwaith i wneud y gwelliannau hyn eisoes wedi dechrau.

Mae gwaith ar y lefel leol yn mynd rhagddo drwy'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC). Cyllidodd DLUHC y Gymdeithas Llywodraeth Leol i redeg rhaglen i gynyddu cynrychiolaeth pobl anabl mewn gwleidyddiaeth leol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- ymgyrch i ddenu rhagor o ymgeiswyr anabl
- rhaglen arweinyddiaeth cynghorwyr anabl
- hyfforddiant un i un ar gyfer cynghorwyr anabl

Yn ogystal â chynorthwyo Tŷ'r Cyffredin, bydd yr UA yn dechrau gweithio i ddylunio ffordd newydd o ddarparu cyllid i bobl anabl sy'n chwilio am swydd etholedig. Bydd hyn yn helpu i sefydlu dull newydd, hirdymor o helpu â'r costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth sefyll am swydd etholedig. Ni fyddwn yn datblygu canolfan wybodaeth dros y flwyddyn i ddod, ond byddwn yn adolygu'r achos dros hyn yn y tymor hwy.

Yn y cyfamser, tra bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo, bydd yr UA yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau newydd erbyn haf 2024 ar sut y gall pleidiau gwleidyddol a chyrrff cyhoeddus etholedig gynorthwyo ymgeiswyr anabl orau, gan dynnu ar wersi o waith y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn y maes hwn a ffynonellau eraill. Bydd hyn yn helpu i wella cymorth yn y tymor byr wrth i ni sefydlu dull hirdymor newydd.

Ynghyd â'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar lefel leol, bydd y camau hyn yn cynorthwyo recriwtio a chadw pobl anabl mewn swydd etholedig.

Cam Gweithredu 1: bydd yr UA yn gweithio gyda phobl anabl i ddylunio ffordd newydd o ddarparu cymorth ariannol i bobl anabl gael mynediad i swydd etholedig. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn 2025.

Byddwn yn gweithio ar y cyd â phobl anabl sydd ag amrywiaeth o brofiad o swydd etholedig. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ar draws mathau o namau a chefnidiroedd.

Cam Gweithredu 2: yn gam cyntaf, bydd yr UA yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau newydd erbyn haf 2024 ar sut y gall pleidiau gwleidyddol a chyrrff cyhoeddus etholedig gefnogi ymgeiswyr anabl orau, gan dynnu ar wersi o waith y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn y maes hwn a ffynonellau eraill.

Cam Gweithredu 3: bydd yr UA yn gweithio ochr yn ochr â Thŷ'r Cyffredin i gefnogi gweithredu camau sy'n gysylltiedig ag anabledd lle bo hynny'n bosibl.

Cynnwys anghenion pobl anabl mewn cynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd

Gwneir gwaith cynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd i sicrhau bod cynlluniau ar waith i ymdrin â:

- digwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd
- amhariadau mawr i seilwaith cenedlaethol fel toriadau pŵer sylweddol
- argyfyngau eraill megis y pandemig coronafeirws (COVID-19)

Mae'r gwaith cynllunio hwn yn helpu sefydliadau a llywodraethau i leihau niwed yn y sefyllfaoedd anodd hyn. Ei nod yw paratoi ar gyfer y mathau hyn o risgiau a helpu i fynd i'r afael â heriau cyn iddyn nhw ddod yn faterion peryglus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod pawb sy'n gallu yn gweithredu mewn argyfyngau i'w helpu eu hunain neu eraill.

Mae ymchwil yn dangos y gall pobl anabl brofi sefyllfaoedd argyfwng yn wahanol. Mae adrannau'r llywodraeth eisoes yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Ond mae pobl anabl a rhanddeiliaid yn dweud nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn o hyd. Mae canfyddiadau ein hymgyngghoriad yn cadarnhau bod y farn hon yn eang.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd yr UA helpu i wneud i gynllunio a chydnerthedd brys weithio'n fwy cynhwysol. Byddai'n gwneud hyn drwy ymgysylltu'n well â sefydliadau pobl anabl (DPOs). Byddai hyn yn helpu lleisiau pobl anabl i gael eu clywed yn gliriach.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Roedd y gefnogaeth i'r cynnig hwn gyda'r uchaf ymhlith unigolion a sefydliadau. Roedd 96% o'r ymatebwyr yn cytuno â hyn. Amlygodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod buddiannau pobl anabl yn cael eu hadlewyrchu'n briodol wrth gynllunio ar gyfer argyfwng a chydnerthedd. Fe wnaethon nhw hefyd alw am gamau ymarferol yn seiliedig ar brofiadau pobl anabl. Dywedodd pobl mewn digwyddiadau ymgynghori nad oedd gwybodaeth iechyd

18 Cynllun Gweithredu Anabledd

y cyhoedd a chynllunio brys yn hygyrch i bob person anabl. Roeddent hefyd yn pryderu am y diffyg canllawiau cenedlaethol cyson ar safonau gofynnol i awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys pobl anabl.

Galwodd yr ymatebwyr am ragor o gydnabyddiaeth o anghenion penodol pobl anabl. Fe wnaethant bwysleisio na ddylai cynllunio argyfwng sy'n cynnwys anabledd fod yn ôl-ystyriaeth. Yn hytrach, dylai ddysgu o ddigwyddiadau blaenorol megis pandemig COVID-19 a thân Tŵr Grenfell. Yn ystod y pandemig, gan gynnwys yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud, roedd llawer o bobl anabl yn teimlo bod mynediad at wybodaeth iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, meddyginiaethau a hanfodion eraill wedi gwaethygu iddyn nhw.

Dywedodd yr ymatebwyr y dylai fod gwell amddiffyniad i bobl anabl mewn argyfyngau yn y dyfodol. Fe wnaethon nhw argymhell cymorth a phrotocolau gorfodol cynyddol. Ymhlith yr enghreifftiau a awgrymir mae larymau tân sydd ag arddangosiadau gweledol, arwyddion cyffwrdd i fannau ymadael, a chynlluniau ymadael sy'n cynnwys pobl anabl. Roedd yr angen am fwy o gynhwysiant anabledd mewn gwaith cynllunio lleol a chenedlaethol yn thema gref arall. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd ddiweddarau canllawiau'r DU i ddilyn y canllawiau rhyngwladol presennol.

Felly bydd yr UA yn gweithio gyda thimau argyfwng a chydnerthedd y llywodraeth i wneud eu cynllunio yn fwy cynhwysol i bobl anabl.

Cam Gweithredu 4: bydd Cyfarwyddiaeth Cydnerthedd Swyddfa'r Cabinet yn sicrhau bod profiadau pobl anabl yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio cydnerthedd. Bydd yn gwneud hyn drwy wahodd cynrychiolydd sefydliad pobl anabl i fynychu Fforwm Cydnerthedd y DU.

Byddwn hefyd yn galluogi pobl anabl (drwy DPOs a chynrychiolwyr anabledd eraill ar draws mathau o namau) i gyfrannu at ganllawiau Llywodraeth y DU i Fforymau Cydnerthedd (LRFs) ar gynorthwyo pobl 'agored i niwed' mewn argyfwng.

Cam Gweithredu 5: bydd yr UA yn adeiladu perthnasoedd â chynllunwyr argyfwng a chydnerthedd ar draws llywodraeth. Bydd hyn yn helpu i gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion sy'n gynhwysol o ran anabledd mewn gwaith argyfwng a chydnerthedd.

Cam Gweithredu 6: bydd y Gweinidog Pobl Anabl, Iechyd a Gwaith yn arwain trafodaeth â'r Hyrwyddwyr Anabledd Gweinidogol ar bwysigrwydd cyfathrebu hygyrch. Maes ffocws fydd gwella cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch am gydnerthedd ac argyfyngau.

Cynnwys anghenion pobl anabl mewn polisïau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae angen i ni sicrhau bod gwaith i gyrraedd y targed hwn yn adlewyrchu anghenion pobl anabl. Er enghraifft, mae Parthau Aer Glân (CAZ) newydd a'r Parth Allyriadau Isel Iawn (ULEZ) wedi effeithio ar fywydau rhai pobl anabl, gan eu hatal rhag teithio'n hawdd i'r gwaith, ysbyty, ysgol neu weithgareddau hamdden, ac arwain at rai pobl anabl yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o ganol dinasoedd ac ar draws Llundain.

Mae hefyd yn bwysig bod anghenion pobl anabl yn cael eu cydbwysu'n llawn wrth greu cynlluniau o'r fath. Mae'r DU yn gartref i academyddion ac arbenigwyr blaenllaw ym maes gweithredu yn yr hinsawdd a chynhwysiant anabledd ac mae angen, sydd wedi'i gadarnhau gan ganfyddiadau'r ymgynghoriad, am ragor o weithredu yn y maes hwn.

Mae twf mewn diwydiannau gwyrdd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer rhagor o swyddi. Mae llywodraeth y DU yn cefnogi argymhelliad y Tasglu Swyddi Gwyrdd y dylai diwydiant flaenoriaethu sicrhau bod pobl o bob cefndir yn gallu gweithio mewn swyddi gwyrdd, gan adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes.

Yn rhan o waith y Grŵp Cyflawni Swyddi Gwyrdd, mae'r llywodraeth, diwydiant, y byd academiaidd ac eraill yn gweithio i gytuno ar gyfres o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Swyddi Gwyrdd, a gyhoeddir yn hanner cyntaf 2024. Ymhlith camau gweithredu ehangach, bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gynorthwyo rhagor o bobl anabl i ddod â'u profiad i'r gweithlu gwyrdd.

Yn [natganiad haf y Grŵp Cyflawni Swyddi Gwyrdd a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu Pŵer a Rhwydweithiau](#) ym mis Gorffennaf 2023, ymrwymodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai'n gweithio gyda diwydiant yn ystod 2023 i 24 i fapio ymgysylltiad y sector ag, er enghraifft, y cynllun Hyderus o ran Anabledd a chyfleoedd eraill, i nodi a gweithredu lle mae angen gwelliannau o ran gwelededd.

Yn yr ymgynghoriad, nododd y llywodraeth gynigion i sicrhau bod polisiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ystyried anghenion pobl anabl yn well.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Roedd tua 83% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd pobl mewn digwyddiadau ymgynghori o'r farn bod strategaethau hinsawdd cenedlaethol a gweithredu hinsawdd lleol wedi methu â chynnwys pobl anabl. Roedd eu hargymhellion yn cynnwys:

- gwneud gwell cysylltiadau rhwng pobl sy'n gweithio ar faterion hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol
- gwneud materion cymhleth yn ymwneud â gweithredu yn yr hinsawdd yn fwy hygyrch i wahanol gynulleidfaoedd

Tynnwyd sylw hefyd at fylchau data ac ymchwil. Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n anoddach deall neu leihau effaith newid hinsawdd ar bobl anabl.

Amlygodd yr ymatebion nifer o faterion pwysig, gan gynnwys:

- trafndiaeth gyhoeddus a phreifat hygyrch
- cerbydau trydan hygyrch a phwyntiau gwefru
- eithriadau o ULEZ a CAZ ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas
- prosesau ailgylchu hygyrch ac anwahaniaethol
- tai wedi'u hinswleiddio a'u hawyru'n dda i bobl anabl

Mae materion eraill a amlygwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addasiadau i'r hinsawdd, a allai effeithio ar bobl anabl yn fwy na phobl nad ydynt yn anabl
- pwysigrwydd profiad pobl anabl mewn gwaith cynllunio hinsawdd ar draws y llywodraeth
- yr angen am gyfathrebiadau a gwybodaeth hygyrch, ddi-jargon am addasiadau hinsawdd

20 Cynllun Gweithredu Anabledd

Dywedodd cyfran uchel o'r ymatebwyr fod y seilwaith ar gyfer cerbydau trydan yn anhygyrch. Mae'r Swyddfa Cerbydau Allyriadau Sero (OZEV) yn gweithio i sicrhau bod seilwaith gwefru yn cynorthwyo cynyddu cyfran y ceir trydan yn y DU. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda diwydiant a phartion eraill i weithredu'r Safon sydd ar Gael i'r Cyhoedd 1899 yn effeithiol ar gyfer gwefru cerbydau trydan hygyrch cyhoeddus. I gynorthwyo hyn, mae adolygiad o'r safon a'r cynnydd ar weithredu yn cael ei gychwyn gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) ym mis Rhagfyr 2023, â chefnogaeth OZEV a Motability, a fydd yn adrodd yng nghanol 2025 â'i argymhellion.

Felly, bydd yr UA yn gweithio ar gamau i gynyddu cynhwysiant anabledd wrth addasu i'r hinsawdd a chamau lliniaru gweithredu. Bydd hyn yn ategu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill.

Cam Gweithredu 7: bydd yr UA yn archwilio sut i sicrhau bod ULEZ a CAZ yn ystyried anghenion pobl anabl yn well. Bydd yn gwneud hyn ynghyd â phobl anabl, arbenigwyr eraill ac adrannau perthnasol y llywodraeth.

Cam Gweithredu 8: bydd yr UA yn dod ag academyddion, pobl anabl a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd ar gyfer cynhadledd ar addasu i'r hinsawdd ac anabledd.

Cam Gweithredu 9: bydd yr UA yn gweithio'n agos gyda thimau strategol ar draws y llywodraeth genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth o gynhwysiant anabledd mewn polisiau presennol.

Bydd hyn yn cynnwys timau o fewn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Cam Gweithredu 10: bydd yr UA yn cynnal dadansoddiad systematig i ddeall yn well yr wybodaeth a'r data sydd eu hangen ar lunwyr polisi a phobl anabl i wneud addasiadau i'r hinsawdd yn gynhwysol.

Yn rhan o hyn, bydd yr UA yn chwilio am gyfleoedd i lenwi bylchau data a gwybodaeth, a sicrhau bod data ar gael ac yn fwy hygyrch.

Cam Gweithredu 11: bydd yr UA yn sefydlu panel profiad pobl anabl ar gyfer 2024 i gefnogi'r gwaith trawslywodraethol (cam gweithredu 9) a datblygu ymchwil (cam gweithredu 10). Bydd y panel yn cynnwys pobl ag amrediad o fathau a phrofiadau o namau, ac o wahanol leoliadau.

Gwella gwybodaeth a chanlyniadau i deuluoedd lle mae rhywun yn anabl

Mae ymchwil yn dangos bod gan blant anabl a phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) risg uwch o brofiadau negyddol sy'n effeithio ar eu llesiant a'u cyfleoedd drwy gydol eu bywydau. Ychydig iawn o ddata sydd ar brofiadau rhieni anabl, felly roeddem am ddysgu rhagor am y rhain drwy'r ymgynghoriad. Wedyn gallem ni adnabod camau defnyddiol i fynd i'r afael â nhw.

Gall teuluoedd lle mae rhywun yn anabl wynebu heriau gwahanol iawn yn dibynnu a yw aelod o'r teulu yn cael ei eni â nam, neu'n dod yn anabl yn ddiweddarach yn ystod plentyndod, glasoed neu yn oedolyn. Rydym am ddeall yr heriau hyn yn well fel y gall pawb gael y cymorth gorau posibl, beth bynnag y bo'u sefyllfa.

Yn yr ymgynghoriad, nododd yr UA gamau arfaethedig i wella canlyniadau i blant anabl a rhieni anabl trwy sefydlu tasgluoedd trawslywodraethol newydd.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i'r cynigion hyn yn gadarnhaol iawn. Ond tynnodd llawer o bobl sylw at yr angen am ddull 'teulu cyfan' o ddarparu'r cymorth gorau. O'r herwydd, rydym wedi dwyn ein cynigion ynghyd ar gyfer plant anabl a rhieni anabl i un ardal. Thema gref mewn digwyddiadau ymgynghori oedd yr angen i ddod â lleisiau plant anabl, rhieni anabl a gofalwyr ifanc i greu polisi.

Dangosodd ymatebion i'r cynigion i gynorthwyo **plant anabl** yn well lefelau uchel o gefnogaeth i'r pedwar maes ffocws arfaethedig:

- pontio i fod yn oedolion
- hygyrchedd manau cyhoeddus a thrafnidiaeth
- bwlio, diogelwch personol a'r effaith ar les
- adnabod anghenion a chymorth yn gynharach i deuluoedd

Awgrymodd rhai ymatebwyr drawsnewidiadau eraill, er enghraifft:

- o'r feithrinfa i'r ysgol gynradd
- i wasanaethau cymorth i oedolion

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod angen gwneud rhai manau cyhoeddus yn fwy hygyrch a chynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys toiledau cyhoeddus, cyngherddau, meysydd chwarae, tai cyhoeddus, ysgolion, campfeydd a phyllau nofio.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod y daith drafnidiaeth o ddrws i ddrws yn ei chyfanrwydd yn bwysig. Fe wnaethant dynnu sylw at effaith trafndiaeth gyhoeddus anhygyrch ar les a chyfleoedd cymdeithasol. Fe wnaeth eraill godi effaith bwlio ar iechyd meddwl, ac awgrymwyd ffocws ar fynd i'r afael â bwlio o fewn ysgolion.

Amlygodd yr ymatebwyr faterion yn ymwneud â diagnosis, gan gynnwys:

- pwysigrwydd diagnosis cynnar ar gyfer cyrchu cymorth addas
- gwahaniaethau mewn diagnosis
- amseroedd aros ar gyfer diagnosis yn effeithio ar gymorth
- diffyg hyblygrwydd o ran meini prawf cymhwysedd – er enghraifft, atal plant 3 i 5 oed rhag derbyn offer symudedd

22 Cynllun Gweithredu Anabledd

Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys:

- mentrau penodol megis cynyddu mynediad at ofal seibiant a seibiannau byr, a gwell darpariaeth o gymorth cyfathrebu megis gwersi BSL rhad ac am ddim
- sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â theuluoedd
- symleiddio prosesau ymgeisio am gymorth
- sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ar gael mewn un lle hygyrch

Dangosodd ymatebion i'r cynigion i gynorthwyo **rhieni anabl** yn well hefyd gefnogaeth gref i'r tri maes ffocws arfaethedig:

- materion hygyrchedd o ran cynorthwyo magu teulu gan wasanaethau iechyd a gofal
- anawsterau a brofir o fewn llysoedd teulu ac amddiffyn plant
- camdriniaeth ddomestig

Amlygodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd y canlynol:

- cymorth cyfathrebu addas a hygyrch
- rhwydweithiau cymorth ehangach, megis grwpiau o rieni anabl eraill, cymorth sy'n canolbwyntio ar y teulu, neu grwpiau chwarae

Gwnaeth yr ymatebwyr awgrymiadau i fynd i'r afael â'r heriau y mae rhieni anabl yn eu hwynebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys:

- rhoi gweithiwr allweddol iddyn nhw
- mynd i'r afael ag agweddau sy'n arwain rhieni anabl i "fynd y tu hwnt i" rieni nad ydynt yn anabl i brofi eu galluoedd mgu teulu
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni anabl wedi gwella ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Amlygodd yr ymatebwyr rwystrau cyfathrebu ac anhygyrchedd strwythurol mewn llysoedd teulu - er enghraifft, diffyg parcio a chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Casglwyd gwell mynediad at addasiadau rhesymol cyn ac yn ystod gwrandawiadau llys. Mae hyn er mwyn caniatáu cyfranogiad a chynrychiolaeth lawn rhieni anabl.

Awgrymodd ymatebwyr fod gwneud gwasanaethau cymorth (gan gynnwys llochesau) yn haws dod o hyd iddynt i rieni anabl sy'n wynebu cam-drin domestig. Fe wnaethon nhw hefyd awgrymu gwell hyfforddiant cam-drin domestig i staff o fewn gwasanaethau a ddefnyddir gan rieni anabl.

Mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill ar draws Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â materion a godwyd yn yr adran hon o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- cynhyrchu'r canllawiau [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant](#) sydd newydd eu diweddarau
- datblygu Canllawiau Pontio newydd i gynorthwyo pobl ifanc anabl ar draws pob cyfnod addysg a lleoliadau ôl-16
- gweithio i godi ymwybyddiaeth o fwlio a'i effaith ar blant anabl, ac i gynorthwyo gofalwyr ifanc yn well
- gweithredu'r [AAAA a'r cynllun gwella darpariaeth amgen](#)

- gweithio ar y cynllun [Cartrefi Sefydlog, Wedi'u Hadeiladu ar Gariad](#) i wella gofal cymdeithasol plant, a gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol i blant anabl
- cynlluniau i wella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a gorsafoedd trên
- y [Mesur Dioddefwyr a Charcharorion](#), sy'n mynd drwy ei gamau seneddol ar hyn o bryd
- gweithio i weithredu argymhellion yn yr [Adolygiad Gofal yn y Cartref Diogel](#)
- parhau i gyflwyno [Hyfforddiant Gorfodol Oliver McGowan ar Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth](#) i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn orau a llenwi rhai bylchau sy'n weddiill, bydd UA yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu 12 i 15 yn 2024.

Cam Gweithredu 12: bydd panel profiad pobl anabl o rwydweithiau presennol o sefydliadau pobl anabl yn gweithio gyda'r UA a phartneriaid eraill ar fentrau i fynd i'r afael â nifer o faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn lle ceir cyfle i wneud gwahaniaeth yn y tymor byr. Mae hyn yn cynnwys cefnogi camau gweithredu 13 i 15, gan ymgorffori profiad pobl anabl yn y cynhyrchion a grëir.

Bydd y panel hwn yn cynnwys rhieni a gwarcheidwaid anabl, plant anabl, a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) i chwyddo eu lleisiau. Bydd yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws mathau o amhariadau, a bydd yn cynnwys pobl sy'n cael eu geni â namau a phobl sy'n cael namau ar wahanol adegau bywyd.

Cam Gweithredu 13: bydd yr UA yn archwilio ac yn datblygu canolfan wybodaeth ar-lein hygyrch newydd i deuluoedd ag aelodau anabl. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i adnoddau a gwybodaeth am bolisïau'r llywodraeth.

Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith a arweinir gan yr Adran Addysg i gyflwyno 'Hybiau Teulu'.

Cam Gweithredu 14: bydd yr UA yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynhyrchion newydd sy'n mynd i'r afael â materion penodol a brofir gan deuluoedd ag aelodau anabl. Mae'r rhain yn cynnwys:

